WG35.5.93

# MARWNAD

I'R DIDWYLL FRAWD

# DAFYDD JONES,

YR HWN A FU YN FLAENOR CANU YN HOREB, PENYDAREN. AC A DDIWEDDODD EI OES YN ABERAERON, YN 29 OED, 1865.

---

GAN LEWIS EVANS (NEU *Llewelyn ab Dewi*).

---

ERCHYLL Angau, hyll yw'th olwg,
  Hyn yn amlwg sy'n dy wedd,
Gywnebau'r byd ymwelwi,
  Pan ddadwaenu'th lymawg gledd;
Arswyd sydd pan geir dy hanes,
  Yn mhob mynwes ar y llawr,
Gelyn atgas wyt, heb geli,
  I hen deulu'r Codwm mawr.

Y mae miloedd heddyw'n wylo,
  Pan yn cofio'th greulawn waith,
Dagrau heillition sydd yn treiglo
  Lawr ar hyd eu gruddiau llaith;
Miloedd geir o wragedd gweddwon
  A'u calon bron a rwygo'n ddwy,
Wedi colli priod tyner,
  Fu bob amser gyda hwy.

Gwelir lluoedd o amddifaid
  Yn hêl eu tamaid yma 'thraw,
Heb un cartref i fyn'd iddo,
  I'w diddosu rhag y gwlaw;
Mae eu gruddiau bach yn welw,
  Dagrau hefyd sydd yn llyn,
Creulawn angeu 'rwyt yn chwerw,
  Dyma'th waith yn awr yw hyn.

Daethost heibio i Aberaeron,
  A'th gleddyf miniawg yn dy law,
A thrywanaist yno'r gwron,
  Er ein galar, er ein braw;
Dafydd Jones yw enw'n cyfaill,
  A darewaist ti â'th gledd,
Huno mae, mal lluoedd ereill,
  Dan dy aden ddu, mewn bedd.

Yn llafurio bu yn galed
  Yma'n Penydaren wiw,
Yn Nghapel Horeb hawdd oedd clywed
  Ei bêr lais yn moli 'i Dduw;

X2C53 / 0817

'Roedd yn flaenor didwyll duwiol,
Dysgai'r llu roi'r mawl i'r Ior,
Cai ufudd-dod yn wastadol,
Heb rwgnachrwydd gan ei gôr.

Pawb oedd yno'n llon wnai wenu
Ar eu blaenor didwyll pur,
Yntau'n serchog wnai amlygu
Drychfeddyliau'r bardd yn glir ;
Yna gyda'i lais pereiddlawn
Seiniai'r dôn i glyw y llu,
A'r holl gôr, mewn llawn bywiawgrwydd,
Seinient glod i'r Iesu cu.

O mor syml y dywedai
Wrth y plant hanesion gwiw,
Am ddylanwad canu wnelai,
Ar hen deulu dynolryw ;
Hwythau'n astud wnelent wrando
Arno'n traethu 'i araeth glir,
Ceisiau yntau'n ddwys argraphu
I'w meddyliau foliant pur.

'Roedd i'w ganfod yn wastadol
Gyda gwaith ei Geidwad gwiw,
Fe ymwelai â'r rhai cleifion,
Clwyfedigion o bob rhyw ;
Gwnai ei oreu i'w cysuro,
Pan o dan eu poenau du,
Fe ddywedai, "Trowch eich golwg
Draw i Fynydd Calfari.

"Yno gwelwch un yn marw,
Heb frycheuyn arno'n bod,
'R hwn a'n carodd ni drueiniaid
Cyn ein geni ni erio'd ;
Cariad sydd yn llanw'i fynwes
At hên deulu dynolryw,
Ymorphwyswn ein eneidiau
Arno Ef, can's cadarn yw."

'Roedd yn cael ryw loes gerwynawl
Dan ei fron, pan welai un
O'r gwyr ieuanc neu'r henafgwyr
Yn myn'd i'r truenu blîn ;
Gwnai ei oreu i'w cynghori,
Ceisiai'n daer ar iddynt ffoi,
Ac ymguddio 'nghlwyfau'r Iesu,
Cyn i'w cyrph i'r bedd eu rhoi.

Ond Ow! alaeth erbyn heddyw,
  B'le mae Dafydd Jones ddinam?
Y mae wedi 'hedeg ymaith,
  O'r byd hwn fe roddes lam;
Aeth o adfyd i ddedwyddwch,
  Aeth o boen i iechyd pur,
Aeth o ganol du gymylau
  I fwynhau goleuni clir.

Esgyn wnaeth uwch byd a'i boenau
  Yn mhlith heirdd angylaidd lu,
Mewn cyflymder mellten elai
  Tuai ddedwydd gartref fri;
Pasiai seren ar ol seren,
  A'r comedau'n fawr a bach,
Ai o gysawd uwch i gysawd,
  Heb un poen, ond perffaith iach.

Mi ddych'mygaf fri y gwelaf,
  Dafydd Jones wrth byrth y nef,
Pa rai'n llydan a agorwyd
  Iddo gydag uchel lef;
"Groesaw!" llefai Abra'm dduwiol,
  "Groesaw!" ebe Isaac gu,
"Groesaw!" llawen floeddiai Jacob,
  "Groesaw!" 'n uwch roes Iesu ni.

"Dygwch, dodwch ef i eistedd,"
  Meddai, "yn ei orsedd wèn,
Hefyd, coron bywyd dygwch,
  A gosodwch ar ei ben;
Can's ymdrechodd ymdrech galed,
  Do, drwy ludded lawer iawn,
Er meddianu yr hapusrwydd
  Mae'n ei feddu heddyw'n llawn."

Yna clywn lais yn adsain
  Drwy y nef yn llon a gaed,
"Iddo ef yr hwn a'm carodd,
  Ac a'm golchodd yn ei waed,
Byddo'r mawl a'r holl anrhydedd,
  A'r gogoniant yn ddi len,
Iddo ef y perthyn mawredd,"
  A dywedodd pawb "Amen."

Bellach ni bydd rhaid i Dafydd
  Fyn'd dan ddwylaw angau du,
Ca fwynhau dedwyddwch beunydd
  Yn nghwmpeini 'i Geidwad cu;

Ca fwynhau o'i wenau siriol,
  Heb un clwy' o dan ei fron,
A bod ganddo yn drag'wyddol
  Uwch gofidiau'r ddaear hon.

Ni ddaw yno unrhyw elyn,
  Ni ddaw yno unrhyw haint,
Ca'n chwim chwareu tannau 'i delyn
  Yn nghwmpeini gwiw y saint;
Fe ga fwyta o bren y bywyd,
  A mwynhau o'i ffrwythau pêr.
A cha ddrachtio'n helaeth hefyd
  O risialaidd ddyfroedd Nêr.

Bellach bydded hedd i'w lwchyn
  Yn oer wely llaith y bedd,
Hyd nes clywir sain yr Udgorn
  Yn adseinio dinas hedd;
Ni chanfyddir y pryd hwnw
  Olion chwerw Angau du
Ar ei gorff, ond perffaith hoew,
  Megis corff ei Geidwad cu.

Boed i briod hoff y gweddwon
  Fod yn briod i'w wraig syw,
Ac i'w noddi rhag peryglon
  Erch y byd, tra yma'n byw,
Hefyd boed ei aden gynes
  Dros ei anwyl blant dinam,
A'u gwaredu rhag pob gormes,
  Hyd nes roi o'r byd hwn lam.

Bellach boed i bawb o honom
  Ddilyn ei esiampl ef,
Hyd nes caffom yn y diwedd
  Feddu rhan o deyrnas nef;
Yno'i fod yn berffaith ddedwydd,
  Yn nghwmpeini Crist ein pen,
A bod yn ei wenau siriol
  Yn drag'wyddol byth, Amen.

*Penydaren.*

JOSEPH WILLIAMS, ARGRAFFYDD, MERTHYR.